OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 2398 (Cy. 258)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffordd Ymadael Tua'r De yn Nhrefynwy, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed	*28 Medi 2011*
Yn dod i rym	*9 Hydref 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Casnewydd i Gaerwrangon (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Hydref 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffordd Ymadael Tua'r De yn Nhrefynwy, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn, neu mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw, neu gan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 08:00 o'r gloch ar 9 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r de yn Nhrefynwy yn Sir Fynwy sy'n ymestyn o bwynt lle y mae'n gwyro oddi ar brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r de-orllewin hyd at ei chyffordd â Beech Road.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefn ffordd.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato ar waith.

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 28 Medi 2011

G R Morgan
GARETH MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.